

Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 8 a 15 Mawrth 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio](#)

[Cwestiynau i'r Trefnydd](#)

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer a chost y gweision sifil a gyflogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ47069)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi darparu'r ateb canlynol:

Gan mai fy nghyfrifoldeb i yw staff Llywodraeth y Cynulliad, mae'r Prif Weinidog wedi gofyn imi ysgrifennu atoch am y materion hyn.

Ysgrifennais atoch ar wahân ym mis Rhagfyr 2005 a mis Ionawr 2006, mewn ymateb i nifer o gwestiynau ysgrifenedig (WAQ44881, WAQ44882, WAQ44869 a WAQ44883) a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog am nifer staff y Cynulliad, y costau gweinyddol a bil cyflogau'r gweision sifil. Yn fy atebion (sydd ynghlwm er gwybodaeth ichi) manyltais ar y nifer o staff a'r costau ers sefydlu'r Cynulliad, fel y gofynnwyd.

Mae'r cynnydd yn nifer y staff a'r costau cysylltiol wedi digwydd wrth i'r Llywodraeth ymgymryd â'r cyfrifoldeb am ystod eang o swyddogaethau a oedd un ai'n newydd neu a arferai fod y tu allan i'r Cynulliad. Mae'r rhain yn

cynnwys trosglwyddo:

2000-01	197 o staff o WHCSA, Hybu Iechyd Cymru, WORD, WEPE a MasnachCymru Rhyngwladol.
2001-02	116 o staff o'r Uned Cefnogi Effeithiolrwydd Clinigol, uned cyffuriau ac alcohol Cymru a'r asiantaeth ffermio a chadwraeth wledig
2002-03	254 o staff o Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru a Chymdeithas Allforio Cymru.
2003-04	73 o staff a drosglwyddwyd o Gomisiwn Iechyd Cymru, gwasanaeth y swyddogion rhent a'r Tîm Cyffuriau ac Alcohol.

Mae enghreifftiau mwy diweddar yn cynnwys cymhathu'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) ym mis Ebrill 2005 pan drosglwyddodd 149 o staff a'r cynnydd yn y cyfrifoldeb am reoli gwasanaethau milfeddygol yng Nghymru a arferai fod yn un o swyddogaethau DEFRA.

Yn sgil sefydlu'r Cynulliad gwelwyd newid sylfaenol yn natur y trefniadau llywodraethu yng Nghymru ac mae hynny wedi arwain at dwf angenrheidiol yn y peirianwaith gweinyddol a sefydlwyd i wasanaethu Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn ogystal, mae'r gyllideb costau gweinyddol wedi gwireddu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i fynd ati i sicrhau cyflogau cyfartal i weision sifil y Cynulliad.

Gan droi at y flwyddyn ariannol gyfredol, mae'r gyllideb costau gweinyddol ar gyfer 2006-07 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau'r CCNC sy'n dod yn rhan o'r Cynulliad (1595 o staff ychwanegol). Cafodd llinellau sylfaen 2006-07 eu gostwng £3.2 miliwn (a £6.3 miliwn yn 2007-08) i sicrhau ein cyfraniad ni tuag at arbedion effeithlonrwydd Creu'r Cysylltiadau.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog ac yn rhoi copi yn y Llyfrgell.

Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog roi a) manylion pob ymweliad swyddogol a dalwyd yn y 12 mis diwethaf fel rhan o'i ddyletswyddau swyddogol; b) nifer y swyddogion a aeth gydag ef ac c) cyfanswm cost yr ymweliad? (WAQ48309)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog: Yn dilyn yr ateb dros dro i'r cwestiwn ysgrifenedig uchod, yr wyf yn falch o ddarparu ymateb terfynol cyfansawdd ar fy rhan i a'r Gweinidogion eraill.

Mae'r manylion y gofynasoch amdanynt yn rhan a) o'r cwestiwn uchod i'w gweld yn y tabl sydd ynghlwm, ar wahân i'r wybodaeth am y Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, gan fod y wybodaeth ar gael yn gyhoeddus yn atodiad A o'i hadroddiad fel Gweinidog, sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan gwasanaethau'r pwyllgorau bob mis.

Nid yw'r wybodaeth y gofynasoch amdani yn rhan b) o'ch cwestiwn yn cael ei chofnodi fel mater o drefn. Yn yr un modd, nid yw'r costau y gofynasoch amdanynt yn rhan c) o'ch cwestiwn yn cael ei chasglu na'i chofnodi ar sail

unigol am ymweliadau o fewn y Deyrnas Unedig. Gweler y ffeil sydd ynghlwm.

Cwestiynau i’r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog roi a) manylion pob ymweliad swyddogol a dalwyd yn y 12 mis diwethaf fel rhan o’i ddyletswyddau swyddogol; b) nifer y swyddogion a aeth gydag ef ac c) cyfanswm cost yr ymweliad? (WAQ48310) *Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.*

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe’ch cyfeirïaf at yr ateb a roddais i gwestiwn ysgrifenedig WAQ48309.

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod yr arian gan y Trysorlys yn dwyn budd i chwaraeon yng Nghymru? (WAQ49681)

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Lansiais y ddogfen ‘Dringo’n Uwch: Y Camau Nesaf’ y llynedd. Mae’n nodi fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae ein hasiant cyflawni, Cyngor Chwaraeon Cymru, yn y broses o ddatblygu amryw o raglenni a chynlluniau a fydd yn targedu adnoddau mewn ffordd sy’n cynyddu’r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon i’r eithaf, ar draws pob oedran, rhyw a grwp cymdeithasol.

Lisa Francis: Pryd fydd yr astudiaeth ddichonoldeb ynghylch gofod arddangos celfyddyd Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, a arweinir gan yr Adran Ddiwylliant, wedi ei chwblhau, a phryd fydd y Gweinidog yn cyhoeddi canlyniadau’r astudiaeth honno? (WAQ49685)

Alun Pugh: Yr wyf wedi sefydlu grwp llywio i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb o oriel gelf genedlaethol a chanolfan genedlaethol i gelfyddyd gyfoes. Mae’r grwp yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae’r grwp llywio yn y broses o lunio amserlen i’r astudiaeth, ond yr wyf yn disgwyl i’r ymgynghorwyr gyflwyno eu canfyddiadau imi erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Caiff yr astudiaeth ei chyhoeddi maes o law.

Lisa Francis: O ran y gyllideb ar gyfer diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon, a all y Gweinidog esbonio cyfanswm y llinell wariant, sef £137.614 gan nad oedd hynny’n cyfateb i’r £143.716 miliwn ar gyfer 2006-07, sef yr hyn a nodwyd yn ffigurau terfynol y gyllideb a gyflwynwyd i’r pwyllgor ym mis Mehefin 2006?(WAQ49739)

Alun Pugh: Ysgrifennais at gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar 15 Chwefror 2007 yn rhoi’r wybodaeth ganlynol er mwyn iddi gael ei chylchredeg i aelodau’r Pwyllgor:

Yr oedd cyfanswm y gyllideb ar gyfer y prif grwp gwariant diwylliant yn wreiddiol yn £143,716,000. Cafwyd gostyngiad o £6.102 miliwn o ganlyniad i ostyngiad yn y diffyg pensiynau i’r llyfrgell genedlaethol ac Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2005 o’i gymharu ag 1 Ebrill 2004. Arweiniodd hyn at ffigur diwygiedig i’r prif grwp gwariant o £137,614,000.

Lisa Francis: A all y Gweinidog esbonio ymhle mae'r £29.417 miliwn ar gyfer y gronfa ddiwylliant, a gynhwyswyd yn ffigurau cyllideb Mehefin 2006, ond sydd heb eu dangos yn nhabl y gwariant o fewn y flwyddyn gyfredol? (WAQ49740)

Alun Pugh: Mae llinell wariant gyfredol y gronfa ddiwylliant yng nghyllideb derfynol 2006-07, sef £29.417 miliwn, yn cynnwys yr elfennau canlynol:

Cyfrif	Cyllideb Derfynol £'000oedd	Tabl Gwariant yn y Flwyddyn Gyfredol £'000oedd	Gwahaniaeth £'000oedd
Grantiau Cyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru	24,498	24,248	250
Cyllid Refeniw Uniongyrchol Canolfan Mileniwm Cymru	1,195	1,195	
Culturenet Cymru	300	300	
Grantiau Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru	2,268	2,268	
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	150	150	
Cyllid Refeniw Arall	1,006	831	175
Cyfanswm	29,417	28,992	425

Canlyniad newidiadau o fewn y flwyddyn rhwng llinellau gwariant yn y prif grwp gwariant diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon yw'r gwahaniaeth o £425,000. Rhoddwyd gwybod am hynny cyn hyn yn fy llythyr at y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ym mis Medi 2006.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Nick Bourne: Sawl uned net o drydan a gynhyrchwyd gan bob fferm wynt yng Nghymru y llynedd, fesul mis? (WAQ46201)

Nick Bourne: Faint o drydan net a allforiwyd i'r Grid Cenedlaethol yn fisol o fferm wynt Cefn Croes a faint a gollwyd drwy drawsyrant? (WAQ46202)

Nick Bourne: A yw allbwn fferm wynt Cefn Croes yn cwrdd â'r rhagolygon a ddarparwyd ar gyfer, a gan, Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ46203)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Yr wyf yn ysgrifennu mewn ymateb i dri chwestiwn ysgrifenedig, WAQ46201, WAQ46202 a WAQ46203, a gyflwynwyd gennych ar 8 Mawrth 2006,

am ffermydd gwynt yng Nghymru.

Nid yw'r wybodaeth a geisiwch am golledion trawsyrru a rhagolygon allbwn yng Nghefn Croes, ac unrhyw fferm wynt arall, yn cael ei dal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth y DU, na'r rheoleiddiwr, y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan. I ganfod y colledion trawsyrru gwirioneddol, byddai'n rhaid cyfrifo pellter y tyrbinau o'r is-orsaf, ac yna'r pellter rhwng yr is-orsaf a'r defnyddiwr terfynol.

Fodd bynnag, hwyrach yr hoffech gael y tabl sydd ynghlwm o ffermydd gwynt cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sydd â chapasiti o fwy na 50 kW, yn nodi eu capasiti cofrestredig a'r oriau megawat a gynhyrchwyd, ar sail fisol, rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2005. Deilliodd yr ystadegau hynny o'r tystysgrifau ymrwymo i ynni adnewyddadwy a gafodd pob fferm wynt yn ystod y cyfnodau hynny. Mae tystysgrifau ymrwymo i ynni adnewyddadwy ar gael i brosiectau ynni adnewyddadwy cymwys yn ôl un dystysgrif am bob MW o allbwn i'r grid trawsyrru.

Mae'n bwysig nodi bod fferm wynt Cefn Croes wedi dewis hawlio ei thystysgrifau drwy ddwy fferm gofrestredig a enwir, sef Cefn Croes a New Werfa, ac maent wedi'u rhoi gyda'i gilydd ar y tabl sydd ynghlwm er hwylustod.

Mae amryw o ffactorau sy'n effeithio ar yr allbwn o ffermydd gwynt, fel yr angen i gynnal cydbwysedd y grid, yr ynni a gynhyrchir yn fewnol yn hytrach na chyflenwad y grid, cynnal a chadw, parhau i ddatblygu prosiectau, neu gyfuniad o'r ffactorau hyn.

Hyderaf y bydd hyn o ddefnydd ichi.

Michael German: Faint o swyddi a gollwyd wrth drosglwyddo cyfrifoldebau'r WDA i'r Adran Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, a beth yw'r cyfanswm a dalwyd mewn tâl diswyddo? (WAQ47266)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Andrew Davies: Gadawodd cyfanswm o 35 o bobl y WDA erbyn diwedd mis Mawrth 2006 ar becyn diswyddo gwirfoddol ar delerau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yr oedd cost y diswyddiadau yn £1.75 miliwn ynghyd ag £1.25 miliwn mewn atebolrwydd pensiwn ychwanegol.

Cymeradwywyd y 35 unigolyn lle'r oedd achos busnes clir. Mae'r arbediad o £2.5 miliwn mewn costau staffio yn gam cyntaf pwysig tuag at wireddu'r targed uno MARh o arbed £12 miliwn erbyn 2008-09.

Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog roi a) manylion pob ymweliad swyddogol a dalwyd yn y 12 mis diwethaf fel rhan o'i ddyletswyddau swyddogol; b) nifer y swyddogion a aeth gydag ef ac c) cyfanswm cost yr ymweliad? (WAQ48311) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeirïaf at yr ateb a roddais i gwestiwn ysgrifenedig WAQ48309.

Kirsty Williams: Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi dyraniadau cyllid dan raglen y grant trafndiaeth? (WAQ49666)

Andrew Davies: Yr wyf yn falch o ddweud wrthyf imi gyhoeddi dyraniadau'r grant trafnidiaeth ar 5 Mawrth.

Kirsty Williams: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gefnogi adfywio economaidd ym Mhowys? (WAQ49667)

Andrew Davies: Mae 'Cymru: Economi yn Ffynnu' yn nodi ein gweledigaeth o ran adfywio economaidd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu pecyn cynhwysfawr o gymorth er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno ym Mhowys. Mae hwn yn canolbwyntio ar annog entrepreneuriaeth a helpu busnesau presennol i arloesi.

Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu'n lleol gan rwydwaith o ganolfannau Llygad Busnes, y gwasanaeth cymorth cyffredinol i fusnesau, rheolwyr cyfrifon a'r Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau, ac mae pecynnau cyllido yn cael eu cynnig gan Cyllid Cymru.

Hefyd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi'n sylweddol mewn safleoedd busnes ym Mhowys, lle gall methiannau ddigwydd yn y farchnad. Yn ystod cyfnod 2000-06 cyllid Amcan 2 yr Undeb Ewropeaidd, buddsoddwyd bron i £11 miliwn yn darparu gwasanaethau ar safleoedd ac eiddo ym Mhowys. Mae'r unedau sydd wedi cael eu llenwi yn cynnwys bron i 200 o swyddi gweithgynhyrchu a gwasanaethu ar hyn o bryd.

Mae cefnogaeth hefyd i amryw o brosiectau ledled Powys, mewn partneriaeth ag eraill yn aml. Mae'r gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- datblygu safleoedd ac adeiladu parc busnes newydd ar hen safle KTH yn Llanidloes;
- cynorthwyo'r gwaith o adfywio Llandrindod a chefnogi datblygwyr ar gyfer y ffordd gyswllt newydd wrth ddynesu o'r gogledd er mwyn hwyluso datblygiad archfarchnad newydd;
- gweithio gyda phartneriaid yn Aberhonddu ar strategaeth adfywio gynhwysfawr i'r dref a'r gefnwlad;
- hybu dyffryn Dyfi fel ardal dwf i eco-ddiwydiannau drwy ddatblygu presenoldeb busnesau technoleg amgylcheddol a sefydlu rhagor o wasanaethau sydd wedi'u seilio ar y farchnad hamdden a thwristiaeth; a
- chefnogi gwaith adfywio yn Ystradgynlais yn cynnwys ehangu Parc Busnes Woodlands gyda rhagor o unedau sy'n ymateb i'r galw.

Kirsty Williams: Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cyllido prosiectau adfywio economaidd ym Mhowys yn y dyfodol? (WAQ49668)

Andrew Davies: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu symleiddio ffynonellau cyllido a rhaglenni ar gyfer busnesau a'u gwahanu'n ffurfiol, i'w gwneud yn fwy hyblyg a hygyrch i entrepreneuriaid a phobl fusnes ym Mhowys.

Gan gydnabod bod y rhan fwyaf o Bowys yn ardal nas cynorthwyr, yr ydym wedi cynyddu uchafswm grant buddsoddi'r Cynulliad ar gyfer prosiectau busnes cymwys 50 y cant i £75,000.

Yr ydym yn bwriadu darparu arian cyfatebol ar gyfer y ffrwd gystadleurwydd newydd o arian UE dros y cyfnod 2007-13, i siroedd fel Powys yn nwyrain Cymru. Bydd hyn yn darparu gwasanaethau cymorth busnes unedig, yn unol â'r fframweithiau rhanbarthol a strategol, a bydd yn pwysleisio blaenoriaethau Lisbon sef rhagor o swyddi, a'r rheini'n swyddi o well ansawdd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gwneud cymaint â phosibl o ddefnydd o arian Ewropeaidd sydd ar gael dan y rhaglen gystadleurwydd ranbarthol a'r cynllun datblygu gwledig er budd busnesau, cymunedau ac unigolion ledled Powys.

Bydd cyllid yn parhau i fod ar gael i gefnogi prosiectau adfywio economaidd y rhoddir blaenoriaeth iddynt ym Mhowys sy'n cyfrannu at yr amcanion a nodwyd yn 'Cymru: Economi yn Ffynnu' ac yn unol â'r blaenoriaethau sy'n deillio o waith y cynllun gofodol yng nghanol Cymru.

Glyn Davies: Yn dilyn llythyr y Gweinidog ataf ar 7 Chwefror 2007 ynghylch y dewisiadau trafndiaeth er mwyn datrys tagfeydd traffig yn y Drenewydd, (a) pa bryd y bydd yr ymgynghorwyr newydd yn cael eu penodi a (b) pa bryd yn 2008 y mae'n rhagweld y bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau? (WAQ49669)

Andrew Davies: Disgwylir i'r ymgynghorwyr newydd gael eu penodi'r haf hwn, a disgwylir ymgynghoriad cyhoeddus yn haf 2008.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i ddweud pam y diffoddwyd goleuadau traffig cylchfan Abercynon ar yr A470? (WAQ49670)

Andrew Davies: Mae'r goleuadau traffig fel y maent wedi'u gosod ar hyn o bryd yn darparu signalau i'r ffyrdd dynesu tua'r gogledd a thua'r de ar yr A470, ynghyd â changen Aberpennar/Aberdâr o'r gylchfan. Cafodd y signalau eu hamseru fel y byddai bylchau'n cael eu darparu yn llif y traffig ar y gylchfan i draffig Nelson, o'r bedwaredd gangen, ddod ar y gylchfan a pharhau â'u siwrnai.

Pan ddechreuodd y signalau weithio ym mis Ebrill y llynedd, daeth yn amlwg yn gyflym bod y traffig o Nelson yn defnyddio'r bwlch i ddod ar y gylchfan a rhwystro'r allanfa tua'r de ar yr A470 yn gyfan gwbl. Yr oedd hyn yn beryglus gan nad yw'r gweledd ar y gylchfan yn ddigonol i bobl weld yr allanfeydd oherwydd y canllaw concrit. Penderfynwyd felly ddiffodd y goleuadau ac ystyried opsiynau ar gyfer signalau ar gyfer cangen Nelson.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddweud erbyn pryd y bydd goleuadau traffig cylchfan Abercynon ar yr A470 yn cael eu rhoi ar waith eto? (WAQ49671)

Andrew Davies: Dechreuodd y gwaith arfaethedig i osod signalau ar gyfer pedwaredd gangen (Nelson) cylchfan Abercynon ar yr A470 ar 26 Chwefror ac mae i fod i bara pump i chwe wythnos. Y cynharaf y gellir rhoi'r goleuadau traffig ar waith fydd diwedd yr wythnos sy'n dechrau 2 Ebrill. Os ceir oedi yn y gwaith adeiladu, bydd y goleuadau'n dod yn weithredol ar ôl y Pasg yn ystod yr wythnos yn dechrau 16 Ebrill.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o arian gaiff ei wario ac erbyn pryd y caiff ei wario ar roi goleuadau traffig cylchfan Abercynon yr A470 ar waith eto? (WAQ49672)

Andrew Davies: Amcangyfrifwyd y byddai'r costau am ddylunio, goruchwyllo a gosod y bedwaredd gangen oddeutu £125,000. Bydd yr arian hwn wedi cael ei wario erbyn mis Mai 2007. Yr oedd costau'r gwaith gwreiddiol oddeutu £200,000.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddweud faint fydd cost gosod goleuadau traffig ar bedwaredd allanfa cylchfan Abercynon ar yr A470? (WAQ49673)

Andrew Davies: Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49672.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog nodi pryd gaiff goleuadau traffig eu gosod ar bedwaredd allanfa cylchfan Abercynon ar yr A470? (WAQ49674)

Andrew Davies: Dechreuodd y gwaith adeiladu arfaethedig i osod signalau ar gyfer pedwaredd gangen (Nelson) cylchfan Abercynon ar yr A470 ar 26 Chwefror ac mae i fod i bara pump i chwe wythnos. Bydd arbenigwr ar bennu dilyniant goleuadau traffig yn sicrhau bod y signalau i gyd yn gweithio'n iawn yn fuan wedyn, un ai yn union cyn y Pasg neu'n fuan wedyn.

David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa ddeunydd a ddefnyddiwyd wrth adeiladu'r biblinell LNG yn y de? (WAQ49676)

Andrew Davies: Mae'r biblinell newydd i gludo nwy naturiol yn y de wedi cael ei hadeiladu o ddur carbon o radd uchel.

David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i reoli'r ffrwydro wrth osod y biblinell LNG rhwng Aberdaugleddau a Turley? (WAQ49678)

Andrew Davies: Bydd rhaid cloddio gyda chloddwyr mecanyddol wrth adeiladu'r piblinellau nwy naturiol rhwng Aberdaugleddau a Turley. Lle deuir at graig galed, efallai y bydd y Grid Cenedlaethol yn ystyried ffrwydradau a reolir ar sail gyfyngedig, dan reolaeth, ar yr amod y ceir caniatâd gan yr awdurdod lleol neu'r Adran Masnach a Diwydiant.

William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu sut mae ei weinyddiaeth yn annog pobl ifanc yng Nghymru i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus? (WAQ49682)

Andrew Davies: Yr wyf yn cyllido peilot dwy flynedd i brofi cynllun teithio gyda gostyngiadau hanner pris ar wasanaethau bws lleol i bobl ifanc 16 i 18 oed. Mae dwy ardal beilot wedi cael eu dethol, yn y gogledd-ddwyrain (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) ac yn y de (Pen-y-bont ar Ogwr). Caiff y cynlluniau peilot eu gwerthuso'n

llawn gan y grwp gweithredu tocynnau teithio rhad cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau ynglyn ag ymestyn y cynllun ar draws Cymru. Yr wyf wedi ehangu aelodaeth y grwp hwn yn ddiweddar i gynnwys cynrychiolydd pobl ifanc.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatgelu a yw wedi cael unrhyw ohebiaeth ynghylch y gwasanaeth gwael ar y llinell rhwng Aberystwyth a'r Amwythig, o ran ei anwadalwch, ei orboblogrwydd a'r cyfleusterau toiled, ac a wnaiff gyhoeddi gohebiaeth o'r fath? (WAQ49684)

Andrew Davies: Yr wyf yn cael gohebiaeth am wasanaethau ar reilffordd y Cambria o bryd i'w gilydd. Mae rhai yn ymwneud ag oedi neu wasanaethau diffygiol, digonolrwydd y toiledau a glendid y trenau, a chynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i wella'r gwasanaeth. Ym mhob achos, mae fy swyddogion yn codi'r materion hyn gydag uwch dîm rheoli Trenau Arriva Cymru cyn ateb. Mae'r perfformiad ar reilffordd y Cambria wedi bod yn gwella dros y misoedd diwethaf.

Ni fwriadaf gyhoeddi llythyron unigol ond hoffwn gyfeirio at fy ymrwymiad i wella gwasanaethau ar reilffordd y Cambria. Nodwyd hyn yn fy natganiad Cabinet ysgrifenedig ar 1 Rhagfyr 2006 ac mae'r datganiad hwn yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gwaith dichonoldeb ar wella gwasanaethau rheilffordd y Cambria.

Cyhoeddais hefyd ar 20 Rhagfyr 2006 y byddaf yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer cerbydau ychwanegol i gryfhau gwasanaethau rheilffordd y Cambria. Mae hyn yn help i liniaru gorlenwi a gwella perfformiad.

Hefyd, bydd teithwyr sy'n defnyddio gorsaf reilffordd Amwythig yn elwa o waith ailwampio mawr ar blatfform 3 diolch i fuddsoddiad gan Lywodraeth y Cynulliad, yr Adran Drafnidiaeth a Chyngor Sir Swydd Amwythig. Mae hyn yn golygu gwella hygyrchedd drwy osod lifft o lefel y stryd i blatfform 3, yn ogystal â gwella'r system oleuadau a'r arwyddion yn yr orsaf. Bydd yn mynd law yn llaw â'r buddsoddiad sy'n cael ei gynllunio gan Network Rail i wella'r cledrau a'r trefniadau signalau yn Amwythig, cynllun sy'n destun gwaith dichonoldeb ar hyn o bryd. Dylai hyn wella perfformiad gwasanaethau Trenau Arriva Cymru sy'n rhedeg drwy Amwythig, gan gynnwys gwasanaeth rheilffordd y Cambria.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw'r gwasanaeth bws Arriva X41 rhwng Aberystwyth ac Abertawe yn derbyn unrhyw nawdd gan Lywodraeth y Cynulliad? (WAQ49690)

Andrew Davies: Mae'r gwasanaeth rhwng Aberystwyth ac Abertawe yn rhan o rwydwaith bysiau a choetis pellter hir TrawsCambria. Mae'r X40 yn rhedeg o Aberystwyth i Gaerfyrddin, gyda dau estyniad y diwrnod i Abertawe a Chaerdydd.

Yn 2006-07, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu tua £1 miliwn i awdurdodau lleol i gefnogi datblygu'r rhwydwaith TrawsCambria, un ai fel cymorth refeniw neu drwy ein grant cymorth refeniw bysiau.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog nodi pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu eu cymryd ar ran cyn weithwyr ASW mewn ymateb i benderfyniad yr Uchel Lys ynghylch pensiynau ar 21 Chwefror 2007? (WAQ49692)

Andrew Davies: Er 2002, mae'r Prif Weinidog a minnau wedi codi trafferthion aelodau cynllun pensiwn ASW gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn rheolaidd, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol presennol dros Waith

a Phensiynau ac ysgrifenyddion blaenorol. Yr ydym yn parhau i wneud hynny.

Ar 21 Chwefror, penderfynodd yr Uchel Lys ei fod yn cytuno â’r Ombwdsmon Seneddol fod gwybodaeth Llywodraeth y DU am ddiogelwch cynlluniau pensiwn galwedigaethol yn gamarweiniol, er i’r llys wrthod casgliadau eraill yn adroddiad yr ombwdsmon.

Croesawaf ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol ar 22 Chwefror, pan ddywedodd fod Llywodraeth y DU eisoes yn adolygu’r cynllun cymorth ariannol gyda golwg ar ganfyddiadau dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop ar 25 Ionawr. Yr ydym yn aros gyda diddordeb mawr am ymateb Llywodraeth y DU i benderfyniad yr Uchel Lys.

Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu’r amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith ar reilffordd Glynebwy? (WAQ49693)

Andrew Davies: Mae’r cynigion ar gyfer amserlen lawn mis Rhagfyr 2007 yn destun ymgynghori gyda grwpiau defnyddwyr, cynghorau sir, Passenger Focus, yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd. Mae cynnig Glynebwy yn cynnig 17 gwasanaeth y dydd o yn gynnar yn y bore tan yn hwyr fin nos ac mae wedi bod ar gael i ymgynghori yn ei gylch ers hydref 2006. Yr wyf wedi atodi copi.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr y goleuadau traffig wrth gylchfan Abercynon ar yr A470? (WAQ49697)

Andrew Davies: Nid yw’r goleuadau traffig ar waith ar hyn o bryd am y rhesymau a nodwyd yn fy ateb i WAQ49670. Ar ôl i’r gwaith adeiladu a graddnodi gael ei gwblhau’n llwyddiannus i sefydlu signalau ar bedwaredd gangen (Nelson) y gylchfan (mae WAQ49671 a WAQ49674 yn cyfeirio at hyn), bydd y signalau traffig yn dod yn weithredol.

Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog roi a) manylion pob ymweliad swyddogol a dalwyd yn y 12 mis diwethaf fel rhan o’i ddyletswyddau swyddogol; b) nifer y swyddogion a aeth gydag ef ac c) cyfanswm cost yr ymweliad? (WAQ48314) *Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.*

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn ysgrifenedig WAQ48309.

Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull cymeradwy Llywodraeth Cynulliad Cymru o ganfod dyslecsia mewn plant? (WAQ49698) [W]

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymeradwyo dull penodol o adnabod dyslecsia mewn plant. Cyfrifoldeb awdurdodau addysg lleol drwy eu prosesau datganiadau ac asesu eu hunain yw pennu a oes gan blentyn dyslecsia ai peidio. Os yw diagnosis yn cadarnhau bod gan blentyn dyslecsia, yna cyfrifoldeb yr AALL yw rhoi pecyn priodol o gymorth addysgol ar waith.

Yn fwy cyffredinol, ers i'r grwp cyfeirio allanol ar gyfer anawsterau dysgu penodol (sy'n cynnwys Dyslecisa), a arweinir gan y Cynulliad, gael ei sefydlu ym mis Mawrth 2006, mae holiadur wedi cael ei anfon at bob AALl yn gofyn am wybodaeth am eu darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu penodol. Mae'r holiaduron wedi cael eu dychwelyd ac maent yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn ceisio datblygu safonau ansawdd mewn addysg er mwyn bodloni anghenion plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu penodol.

Yr ydym wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion sy'n darparu ar gyfer disgyblion â dyslecsia ac yr ydym wedi darparu £25,000 i gefnogi'r fenter ysgolion sy'n cefnogi dyslecsia yng Nghymru.

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â bwllo mewn ysgolion ledled Cymru? (WAQ49737)

Jane Davidson: Yr wyf yn llwyr ymwybodol bod bwllo yn gallu cael effaith fawr ar fywydau plant a phobl ifanc a bod hon yn broblem y bydd angen inni barhau i fynd i'r afael â hi gan nad yw'n mynd i ddiflannu ohoni ei hun. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ganol nifer o gynlluniau ar hyn o bryd i ymdrin â phroblem bwllo yn ysgolion Cymru.

Ym mis Medi 2003 darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau o dan yr enw 'Parchu Eraill' i'r holl awdurdodau addysg lleol ac ysgolion yng Nghymru. Nod y canllawiau oedd darparu gwybodaeth am fynd i'r afael â bwllo mewn ysgolion. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnig cyngor ar sefydlu polisi atal bwllo mewn ysgolion. Rhaid i benaethiaid a chyrff llywodraethu, yn ôl y gyfraith, fod â pholisi i atal pob math o fwlio ymysg disgyblion.

Ysgrifennais at bob ysgol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2004 yn gofyn iddynt gyflwyno copi o'u polisi gwrth-fwlio i adran addysg y Cynulliad Cenedlaethol fel bod modd asesu pa mor dda y mae'r polisïau'n cyd-fynd â'r canllawiau a nodwyd yn 'Parchu Eraill'. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y gwerthusiad, a gyflawnwyd gan Brifysgol Caerdydd, ym mis Ebrill 2006.

Trefnodd Llywodraeth y Cynulliad ddau ddiwrnod hyfforddi yn haf 2006 i roi adborth ar y gwerthusiad o bolisïau ysgolion ac i rannu'r arferion da a ganfuwyd yn ystod yr adolygiad. Yr oedd swyddogion awdurdodau addysg lleol a chynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd yn bresennol, ynghyd ag aelodau o rwydwaith gwrth-fwlio Cymru. Manteisiasom ar y cyfle hwn i ysgogi trafodaeth grwp am ddatblygu pecyn hunanasesu i ysgolion i'w helpu i ddiwygio eu polisïau gwrth-fwlio. Mae'r swyddogion yn y broses o gasglu'r adborth ynghyd a byddant yn cyhoeddi pecyn drafft yn fuan i'w dreialu mewn nifer o ysgolion.

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, hefyd i adolygu'r strategaethau i fynd i'r afael â bwllo ac i nodi enghreifftiau o arferion da mewn ysgolion. Cyhoeddodd ei hadroddiad ym mis Ebrill 2006.

Yn dilyn y llwyddiant yn 2005, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wythnos gwrth-fwlio eto—rhwng 20 a 24 Tachwedd 2006—a oedd yn gyfle i weithio gyda'n partneriaid ar draws Cymru, gan roi'r cyfle i ysgolion i drafod materion yn ymwneud â bwllo a rhannu arferion da.

Thema'r wythnos oedd 'gwylwyr', sef y rhai sy'n gwybod bod bwllo'n digwydd ond nad ydynt yn gwneud dim i helpu'r dioddefwr. Anfonwyd pecyn gwybodaeth i bob ysgol cyn yr wythnos a roddai gyflwyniad cyffredinol am fwlio, ymchwil i'r holl elfennau'n ymwneud â bod yn 'wylwr' a rhestr o syniadau i ysgolion eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer yr wythnos. Lanswyd gwefan hefyd i ddarparu gwybodaeth a chymorth

ychwanegol i ysgolion, rhieni, disgyblion ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â bwlio mewn ysgolion, www.wales.gov.uk/respectingothers.

John Griffiths: A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i newid y polisi ar ddalgylchoedd ysgolion yng Nghymru? (WAQ49742)

Jane Davidson: Ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bolisi ar ddalgylchoedd ysgolion. Mater i'r awdurdodau derbyn benderfynu arno yw hwnnw. Nid oes gennym gynlluniau i newid y sefyllfa hon ac yn sicr nid oes gennym fwriad i annog awdurdodau i fabwysiadu dull loteri tuag at ddyrannu lleoedd ysgol. Lle ceir mwy o geisiadau nag oes gan ysgol o leoedd ar gael, rhaid i'r awdurdodau derbyn flaenoriaethu'r ceisiadau gan ddefnyddio'r meini prawf y maent wedi'u cyhoeddi ar ymdrin â gormod o geisiadau. Mae dalgylchoedd yn cael eu defnyddio'n gyffredin i'r diben hwn er na wneir hynny ym mhobman. Mae rhai awdurdodau yn gweithredu ar sail yr ysgolion bwydo yn lle hynny neu'n rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau brodyr a chwiorydd neu gysylltiadau crefyddol.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog roi a) manylion pob ymweliad swyddogol a dalwyd yn y 12 mis diwethaf fel rhan o'i ddyletswyddau swyddogol; b) nifer y swyddogion a aeth gydag ef ac c) cyfanswm cost yr ymweliad? (WAQ48314) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeirïaf at yr ateb a roddais i gwestiwn ysgrifenedig WAQ48309.

Ann Jones: Beth oedd cyfanswm lefel y cymhorthdal a roddwyd gan ei adran i ffermwyr yng Nghymru yn ystod pob un o'r 10 mlynedd diwethaf; a beth y mae pob ffigur yn ei gynrychioli fesul ffermwr? (WAQ48245)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Nid yw'r wybodaeth y gofynasoch amdani ar gael yn hawdd o unrhyw gofnodion sy'n cael eu dal yn ganolog heb wneud llawer iawn o waith. Fodd bynnag, gallaf roi rhywfaint o wybodaeth ichi am daliadau cymhorthdal ym mlynnyddoedd 2002 a 2005 y cynllun i'r diben o gymharu'r cynllun taliad sengl newydd â chynlluniau cymorthdaliadau cynhyrchu blaenorol y polisi amaethyddol cyffredin. Mae'r cymorthdaliadau olaf hyn yn cynnwys taliadau'r cynlluniau arwynebedd tir âr, premiwm blyneddol defaid, premiwm buchod sugno, premiwm arbennig eidion, taliadau dad-ddwysáu a phremiwm lladd.

Dan gynllun taliad sengl 2005, talwyd £206.2 miliwn i ffermwyr Cymru erbyn i ffenestr dalu 2005 ddod i ben ar 30 Mehefin 2006. Mae hyn yn cyfateb i daliad o £11,500 y ffermwr ar gyfartaledd.

Ym mlwyddyn gynllun 2002, dan gynlluniau cynhyrchu uchod y PAC, talwyd £166 miliwn i ffermwyr Cymru. Mae hyn yn cyfateb i daliad o £9,823 y ffermwr ar gyfartaledd.

Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoliadau Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch gwaredu teiars? (WAQ48264)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Carwyn Jones: Mae gwaredu teiars, yn gyfan ac wedi’u carpio, wedi cael ei wahardd o safleoedd tirlenwi er 16 Gorffennaf 2006. Canlyniad gwaharddiad drwy’r UE gyfan a gyflwynwyd gan y gyfarwydddeb tirlenwi yw’r rheolau newydd. Yng Nghymru caiff ei throsi gan Reoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2005 a’i gorfodi gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae rhai eithriadau, fel teiars mawr (sydd â diamedr o fwa na 1400mm) a theiars beiciau, y mae modd parhau i’w gwaredu mewn safleoedd tirlenwi, yn ogystal â theiars cyfan a theiars wedi’u carpio at ddibenion peiranyddol—er enghraifft, fel rhan o systemau casglu trwytholch. Byddai’r defnydd hwn yn cael ei asesu gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar sail pob achos yn unigol, gan ei fod yn digwydd yn lle defnyddio deunyddiau crai fel agregau crai ac mae’r gweithgaredd yn cael ei ddosbarthu fel adfer gwastraff yn hytrach na gwaredu gwastraff.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith erydu’r arfordir ar barc arfordirol y mileniwm? (WAQ49689)

Carwyn Jones: Deallaf fod tua 500m o amddiffynfeydd wedi cael eu difrodi gan stormydd dros gyfnod y gaeaf a bod darn o’r llwybr beicio arfordirol wedi cael ei golli. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sy’n rheoli parc arfordirol y mileniwm, yn ymchwilio i ganfod pa weithredu sy’n angenrheidiol. Mae gan y cyngor bwerau i wneud gwaith amddiffyn yr arfordir os oes angen. Mae fy swyddogion yn cwrdd â swyddogion y cyngor yr wythnos hon i drafod y sefyllfa.

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhwydweithiau cefnogi sydd ar gael i’r bobl hynny sy’n gweithio yn y sector amaethyddol yng Nghymru? (WAQ49701)

Carwyn Jones: Fe’ch cyfeirïaf at eich cwestiwn WAQ49164, a atebwyd rhwng 1 ac 8 Chwefror 2007.

Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waredu gwastraff peryglus yng Nghymru? (WAQ49702)

Carwyn Jones: Nid oes darpariaeth tirlenwi i wastraff peryglus yng Nghymru. Mae amryw o gyfleusterau ailgylchu a thrin priodol yng Nghymru, felly mae llai o angen anfon gwastraff peryglus i safleoedd tirlenwi. Rhaid i unrhyw wastraff peryglus a anfonir i safleoedd tirlenwi gael ei drin yn gyntaf i’w wneud yn llai peryglus.

Mater i’r farchnad benderfynu arno rhwng y cynhyrchwyr gwastraff a’r diwydiant rheoli gwastraff yw rheoli gwastraff peryglus. Mae faint o wastraff a gynhyrchir yn effeithio ar hynny hefyd ac mae Cymru’n cynhyrchu llai o wastraff peryglus na Lloegr.

Fodd bynnag, ni ddylai busnesau yng Nghymru gael eu cosbi’n ormodol, er enghraifft, oherwydd costau cludiant uwch. Fel yr ydym wedi ei gwneud yn glir yn ‘Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru’, bydd angen parhaus am ddarpariaeth tirlenwi i wastraff peryglus ar gyfer gwastraff peryglus sydd wedi cael ei drin ac efallai y bydd rhaid cael nifer gyfyngedig o safleoedd, ond mater i’r diwydiant rheoli gwastraff yw penderfynu pa ddatblygiadau sy’n briodol.

Rosemary Butler: Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi awdurdodau lleol i fynd i’r afael â throeddau tipio anghyfreithlon? (WAQ49704)

Carwyn Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo’n bendant i helpu awdurdodau lleol i fynd i’r afael â phroblem tipio anghyfreithlon. Yr ydym wedi cyhoeddi’r strategaeth tipio anghyfreithlon yn ddiweddar, sydd o blaid gweithio drwy bartneriaeth â’r awdurdodau lleol. Mae’r strategaeth yn tynnu sylw hefyd at yr arferion gorau ac at ddefnydd effeithiol o’r ddeddfwriaeth bresennol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu £44,000 i helpu gyda chost darparu hyfforddiant i staff llywodraeth leol sy’n gorfodi’r ddeddfwriaeth tipio anghyfreithlon yng Nghymru. Bydd hyn yn gymorth i ddarparu hyfforddiant arbenigol i staff sy’n paratoi achosion i’w herlyn, a fydd yn arwain at well cyfraddau euogfarnu am droseddau a bydd yn anogaeth i ddarpar dipwyr anghyfreithlon ymatal rhag gwneud hynny.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cefnogi nifer o brosiectau i dreialu ffyrdd newydd o fynd i’r afael â thipio anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys £24,000 i Cadwch Gymru’n Daclus fel rhan o brosiect peilot i helpu i glirio sbwriel sydd wedi cael ei dipio’n anghyfreithlon oddi ar dir preifat, gan ddod â budd i gymunedau lleol, clybiau chwaraeon a chymdeithasol a grwpiau gwirfoddol eraill. Mae £49,800 pellach wedi cael ei ddyrannu i Gyngor Sir Caerdydd i ymgymryd â phrosiect peilot i ddefnyddio system leoli fyd-eang a chyfarpar goruchwyllo i fonitro a dynodi dwysfannau lle ceir llawer o dipio anghyfreithlon a cherbydau wedi cael eu llosgi.

Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd cynhesu byd-eang yn effeithio ar Gymru? (WAQ49705)

Carwyn Jones: Mae rhaglen y DU ar effeithiau’r hinsawdd wedi cynhyrchu senarios ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae’r model yn awgrymu y gall Cymru ddisgwyl:

- tymereddau poethach ar gyfartaledd a chynnydd yn y nifer o ddiwrnodau eithriadol o boeth;
- gaeafau mwynach a llai o eira;
- cynnydd mewn glawiad yn y gaeaf ac yn nwyster y glawiad;
- tymor tyfu hirach;
- lefel y môr yn codi; a
- thywydd mwy eithafol, fel stormydd difrifol a gwyntoedd uchel.

Bydd hyn yn effeithio ar Gymru mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, ceir:

- cynnydd mewn fflachlifoedd oherwydd glaw trwm a chynnydd mewn llifogydd ac erydu afonol ac arfordirol;
- mwy o bwysau ar systemau carthffosiaeth;

- mwy o ddifrod stormydd yn y gaeaf;
- newid o ran cynefinoedd a rhywogaethau;
- pwysau ar adnoddau dwr yn yr haf;
- mwy o risg o ymsuddiant mewn ardaloedd lle tueddir i gael ymsuddiant;
- mwy o anghysur thermol mewn adeiladau; a
- phroblemau iechyd yn yr haf, gan gynnwys marwolaethau cysylltiedig â llygredd aer uchel y mae gwres yn ffactor ynddynt.

Efallai y byddai rhai manteision yn lleol hefyd, yn dibynnu ar raddfa a chyfradd y newid yn yr hinsawdd.

Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn 'Responding to Our Changing Climate', yr ymgynghoriad am ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a gyhoeddwyd gennyf ar 15 Chwefror.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei ganllawiau cynllunio i awdurdodau lleol? (WAQ49708)

Carwyn Jones: Mewn ymateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig tebyg, a atebwyd ar 5 Hydref 2006 (WAQ48065), nodais fanylion y gyfres polisi cynllunio, sy'n rhoi canllawiau cynllunio Llywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid oes canllawiau newydd wedi cael eu cyhoeddi ar eu gwedd derfynol ers hynny. Fodd bynnag, yr wyf wedi cyhoeddi datganiad polisi cynllunio interim gweinidogol drafft yn nodi cynigion i newid y polisi cynllunio ar newid yn yr hinsawdd. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 30 Mawrth 2007. Hefyd, yr ydym wedi comisiynu prosiect ymchwil i werthuso'r prosesau a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu polisi cynllunio. Mae hwn i fod i adrodd ddiwedd mis Ebrill a bydd yn gwneud argymhellion gwella penodol, ynghyd ag asesiad o sut y dylai polisi gael ei gyflwyno.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei bolisiau ar gyfer amddiffyn cefn gwlad Cymru? (WAQ49709)

Carwyn Jones: Cyhoeddwyd y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru ym mis Mai 2006 ac mae'n nodi strategaeth dymor hir Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer amgylchedd Cymru. Mae'n darparu'r fframwaith y mae ein gweledigaeth o ran amgylchedd Cymru i gael ei gwireddu oddi mewn iddo, ac yn gefn iddo ceir cyfres o gynlluniau gweithredu sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Wrth gyfrannu at ganlyniadau'r strategaeth amgylcheddol, mae fframwaith bioamrywiaeth wedi cael ei ddatblygu gan bartneriaeth bioamrywiaeth Cymru fel arweiniad er mwyn dynodi'r ffactorau hanfodol sy'n sbarduno bioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn ymestyn y ddyletswydd bioamrywiaeth yn adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i bob corff cyhoeddus ac ymgymwrwr statudol yng Nghymru. Bwriedir i'r ddyletswydd, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, egluro'r gofynion a chaniatáu i awdurdodau ddal y ddysgl yn wastad wrth gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys defnydd tir a rheoli cynllunio, yng nghydestun cadw bioamrywiaeth. Caiff canllawiau eu cyhoeddi ddiwedd mis Mai 2007.

Mae’r cynnydd sylweddol sy’n parhau o flwyddyn i flwyddyn yn yr adnoddau sy’n cael eu darparu i Gyngor Cefn Gwlad Cymru a’r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn arwydd clir o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i amddiffyn cefn gwlad Cymru.

John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd rheoliadau gosod gatiau? (WAQ49710)

Carwyn Jones: Cyhyd â’u bod yn cael eu defnyddio’n briodol—a, lle bo rhaid, ar y cyd â mesurau eraill—dylai’r rheoliadau gosod gatiau newydd helpu i fynd i’r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau lleol. Mae’r rheoliadau’n caniatáu i awdurdodau priffyrdd lleol gyfyngu mynediad cyhoeddus i rai priffyrdd cyhoeddus (er enghraifft, lonydd ac aleau) drwy osod gatiau arnynt, ar rai adegau o’r dydd os yw hynny’n gymwys, heb dynnu statws priffordd y llwybr. Mae hyn yn bwysig gan y bydd yn caniatáu i awdurdodau dynnu’r gatiau pan fydd y sefyllfa’n gwella yn lleol. Datgelodd yr ymgynghoriad cyhoeddus am gynnwys arfaethedig y rheoliadau newydd gefnogaeth i’r darpariaethau hyn. Mae gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru ddiddordeb mewn defnyddio’r pwerau newydd, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd.

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi’r bobl hynny sy’n gweithio yn y sector amaethyddol yng Nghymru? (WAQ49711)

Carwyn Jones: Fe’ch cyfeiriai at eich cwestiwn WAQ49164, a atebwyd rhwng 1 ac 8 Chwefror 2007.

Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog roi a) manylion pob ymweliad swyddogol a dalwyd yn y 12 mis diwethaf fel rhan o’i ddyletswyddau swyddogol; b) nifer y swyddogion a aeth gydag ef ac c) cyfanswm cost yr ymweliad? (WAQ48314) *Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.*

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe’ch cyfeiriai at yr ateb a roddais i gwestiwn ysgrifenedig WAQ48309.

Ann Jones: Faint gostiodd cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i Lywodraeth y Cynulliad yn y flwyddyn lawn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer? (WAQ49712)

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yn unol â’n trefn integredig i ddelio â cheisiadau am wybodaeth, mae swyddogion mewn is-adrannau ar draws Llywodraeth y Cynulliad yn delio â cheisiadau. Mae tîm bach o staff yn yr uned mynediad at wybodaeth yn gweithio’n unswydd ar ddarparu cyngor a chymorth arbenigol i swyddogion sy’n delio â cheisiadau.

Erbyn hyn yr ydym wedi derbyn 1,700 o geisiadau am wybodaeth er 1 Ionawr 2005, sydd wedi golygu ym mhob rhan bron o’r sefydliad fod adnoddau’n cael eu harallgyfeirio dros dro i ddelio â’r ceisiadau. Nid oes gwybodaeth gyfun ar gael o ran y cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd i gydymffurfio â’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fwlio yn y GIG? (WAQ47228)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Ni ellir esgusodi na goddef bwlio ac aflonyddu ar staff y GIG dan unrhyw amgylchiadau. Mae'r GIG yng Nghymru wedi gwneud ymdrechion sylweddol i godi ymwybyddiaeth o hawliau staff er mwyn i bawb o'r staff deimlo'n hyderus i adrodd am ddigwyddiadau o fwlio ac aflonyddu gan wybod yr ymdrinnir yn llawn ac yn ddiduedd â'r cwynion hyn. Mae'r canllawiau angenrheidiol gan y rheolwyr ac mae'n ddyletswydd arnynt i sicrhau bod bwlio ac aflonyddu yn cael eu dileu o'r gweithle. Ar yr un pryd, rhaid ymchwilio'n drylwyr bob amser i bob honiad o'r fath er mwyn bod yn deg i bob parti dan sylw.

Mae pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru wedi cyrraedd y safon iechyd gorfforaethol, sef y nod ansawdd i hyrwyddo iechyd yn y gweithle. Er na osododd Llywodraeth Cynulliad Cymru feini prawf penodol am yr hyn ddylai gael ei gynnwys ym mholisiâu ymddiriedolaethau am fwlio ac aflonyddu, bydd pob ymddiriedolaeth wedi dangos bod ganddi bolisi o'r fath cyn y bydd yn cyrraedd y safon.

Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog nodi cynnydd canrannol a) rheolwyr a gweinyddwyr b) nyrsys c) bydwragedd ac ch) meddygon yn GIG Cymru bob blwyddyn er 1999 ac a wnaiff ef ddadansoddi'r ffigurau hyn yn ôl pob bwrdd iechyd lleol yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ48249)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Brian Gibbons: Oherwydd yr ail-gyflunio ar sefydliadau'r GIG, nid yw'n bosibl dangos data am sefydliadau unigol yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin ar draws y cyfnod. Mae'r data yn y tabl canlynol yn cynnwys staff sy'n cael eu cyflogi gan yr holl sefydliadau perthnasol ^(a).

Cynnydd canrannol o flwyddyn i flwyddyn ^(b)

	1999 i 2000	2000 i 2001	2001 i 2002	2002 i 2003	2003 i 2004	2004 i 2005
Cymru						
Rheolwyr, staff clercol a gweinyddiaeth	3.8	7.0	7.4	2.5	10.1	5.5
Staff nyrsio ac ymwelwyr iechyd	1.6	1.5	3.2	4.7	2.6	2.8
Bydwragedd cofrestredig	-3.1	8.5	-0.9	3.9	3.1	0.8
Staff meddygol ysbytai a chymunedol	3.1	0.4	6.9	1.0	11.7	3.7
Canolbarth a Gorllewin Cymru						
Rheolwyr, staff clercol a gweinyddiaeth	6.5	4.4	4.1	-0.1	7.4	5.9
Staff nyrsio ac ymwelwyr iechyd	1.8	3.5	0.9	4.7	3.7	1.7
Bydwragedd cofrestredig	9.3	2.5	-3.4	-0.9	5.1	-0.4

Staff meddygol ysbytai a chymunedol	2.8	2.7	1.5	4.9	13.5	3.8
-------------------------------------	-----	-----	-----	-----	------	-----

Ffynhonnell: Cyfrifiadau staff blynyddol

(a) Ymddiriedolaethau GIG (Bro Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Sir Benfro a Derwen, Gofal Iechyd Powys (1999 hyd at 2003) ac Abertawe), BILlau o 2004 ymlaen (Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe), awdurdodau iechyd Dyfed Powys a Morgannwg rhwng 1999 a 2002, canolfannau gwasanaethau busnes Caerfyrddin ac Abertawe 2003 a 2004 a chanolfan gwasanaethau busnes Canolbarth a Gorllewin Cymru 2005. Trosglwyddodd peth o waith yr hen awdurdodau iechyd i'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Chomisiwn Iechyd Cymru yn 2003. Mae staff yn y sefydliadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau am Gymru ond nid am ganolbarth a gorllewin Cymru.

(b) Staff mewn swydd ar 30 Medi (cyfwerth ag amser llawn).

Helen Mary Jones: Pa bwerau sydd gan y Gweinidog i liniaru effaith neu ganslo taliadau cyfalaf ar gyrff iechyd? (WAQ48250)

Helen Mary Jones: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i liniaru effaith taliadau cyfalaf ar gyrff iechyd, ac a wnaiff ef gyfeirio'n benodol at brosiectau cyfalaf newydd a strategaethau cenedlaethol? (WAQ48251)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Brian Gibbons: Cost reffeniw yw taliadau cyfalaf sy'n adlewyrchu cost cyfle arian a fuddsoddir mewn asedau cyfalaf (sy'n cynnwys tir, adeiladau, offer a chyfarpar). Mae'r gofyniad ar i gyrff iechyd gynnwys taliadau cyfalaf yn eu cyfrifon blynyddol yn cael ei bennu gan Drysorlys EM, ac mae'n unol â pholisi cyfrifyddu'r DU. Nid yw'n fater sydd wedi cael ei ddatganoli. Mae taliadau cyfalaf ar gyrff iechyd yn dâl yn erbyn y terfyn gwariant dirprwyedig ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, felly, yn disgwyl i gyrff iechyd wneud defnydd effeithlon ac effeithiol o asedau cyfalaf i sicrhau bod y taliadau cyfalaf a achosir yn cynrychioli'r gwerth gorau.

I gefnogi'r cynnydd yn y rhaglen buddsoddiadau cyfalaf iechyd, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth taliadau cyfalaf i nifer gyfyngedig o gynlluniau cyfalaf fel a ganlyn:

- cymorth tâl cyfalaf strategol—cymorth reffeniw rheolaidd a roddir i dalu unrhyw gostau taliadau cyfalaf net ychwanegol sy'n deillio o'r cynllun (hynny yw, pe bai arbedion i'w gosod yn rhannol yn erbyn y taliadau cyfalaf ychwanegol, dim ond cymorth tuag at y gwahaniaeth fyddai'n cael ei roi). Bydd cymorth o'r fath yn cael ei gymhwyso i'r categori canlynol o gynlluniau a gyllidir drwy'r rhaglen buddsoddi cyfalaf:
 - iechyd meddwl, dim ond lle mae'n briodol defnyddio eiddo'r GIG;
 - rhaglenni corfforaethol ar sail Cymru gyfan, yn cynnwys gwybodaeth, y rhaglen ddiagnostig (nid offer newydd yn lle hen offer) a'r rhaglen cyflymwyr unionlin;
 - moderneiddio'r gwasanaeth ambiwlans.

- cymorth taliadau cyfalaf trosiannol—nid cymorth rheolaidd ac fe'i rhoddir i ddiwallu unrhyw

gostau taliadau cyfalaf net ychwanegol am gyfnod cyfyngedig o amser. Câi hwn ei gymhwyso i:

- gwrdd â chostau effeithiau dibrisiant cyflym;
- darparu cymorth ar gynlluniau mawr sy'n golygu newid sylweddol o ran gwasanaethau. Byddai cymorth ar gael am gyfnod cyfyngedig i roi amser i arbedion refeniw ac effeithlonrwydd gael eu gwireddu. Bydd cyllid ar gael am hyd at dair blynedd yn dibynnu ar y raddfa a byddai fel arfer yn cael ei dapro neu ei ostwng dros y cyfnod.

Byddai disgwyl i ymddiriedolaethau sy'n ceisio cymorth o'r fath gyflwyno cais gyda'u hachos busnes. Byddai'n cael ei ystyried gan y bwrdd buddsoddi cyfalaf fel rhan o'r broses graffu a chymeradwyo.

Hyd yma, mae'r cymorth hwn wedi cael ei roi i'r cynlluniau canlynol:

- ambiwlansys newydd;
- ysgol glinigol Gwent;
- canolfan orthopedig Caerdydd a'r Fro;
- prynu trwyddedau Microsoft; ac
- ysbyty newydd Caerffili.

Ann Jones: Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi eu cyhoeddi ynghylch amgylchiadau ar gyfer cau nifer sylweddol o ysgolion yng nghwrs pandemig ffliw dynol, ac a wnaiff ef gyhoeddi'r amgylchiadau hynny? (WAQ48252) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.*

Ann Jones: Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynhyrchu ar gyfer ysgolion a gwasanaethau plant ynghylch cynllunio ar gyfer pandemig ffliw dynol, ac a wnaiff ef roi copïau yn Llyfrgell yr Aelodau? (WAQ48258) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.*

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau ar gyfer ysgolion a gwasanaethau plant, sef 'Ffliw Pandemig: Plant a phobl ifanc— Cynllun wrth gefn ar gyfer ysgolion a lleoliadau eraill lle addysgir plant', ar 10 Gorffennaf 2006.

Cynhyrchwyd y canllawiau ar y cyd â Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr awdurdodau lleol fel rhan o ymdrechion cydlynol Llywodraeth y Cynulliad i annog cynllunio synhwyrol ar draws pob sector. Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu i help cyrrff addysg yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ar draws Cymru i gynllunio i fynd i'r afael ag ystod o senarios a allai ddeilio o bandemig ffliw dynol, fel rhan o'r ymateb brys ehangach.

Ein barn ni yw bod angen i bob sefydliad fod yn barod i barhau i weithredu mor normal â phosibl yn ystod pandemig, yn bennaf fel bod cyn lleied â phosibl o darfu cymdeithasol. Wrth gwrs, yr ydym wedi ystyried cyngor y Prif Swyddog Meddygol y gallai ysgolion a sefydliadau gofal plant grwp fod yn wahanol ac, yn dibynnu ar natur y firws pandemig, y gallai fod angen eu cau am gyfnod i helpu i ddiogelu iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae'r

canllawiau’n gofyn felly am i awdurdodau lleol, ysgolion annibynnol a darparwyr gofal plant grwp fod yr un mor barod un ai i aros ar agor neu i gau, os mai dyna fydd cyngor y Prif Swyddog Meddygol.

Yr ydym yn parhau i adolygu’r canllawiau’n ofalus, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y DU a llywodraeth leol, felly gallai’r cynnwys newid ar fyr rybudd. Yr wyf wedi rhoi copi o’r canllawiau cyfredol yn Llyfrgell yr Aelodau. Maent ar gael hefyd, ynghyd â chanllawiau ar wahân i’r sectorau addysg bellach ac addysg uwch ar: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance_and_information/pandemic_influenza?lang=cy

Ann Jones: Pa BILlau ac Ymddiriedolaethau a fethodd gyflwyno cynllun ar gyfer rheoli canlyniadau pandemig fflw erbyn Medi 30 2006, fel y cyfarwyddwyd yn llythyr Llywodraeth y Cynulliad ar 8 Awst 2006, a phryd fydd y cynlluniau hynny a gyflwynwyd yn ymddangos (a) ar wefan GICC Cymru a (b) yn Llyfrgell yr Aelodau? (WAQ48263)

Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyfres o gyfarfodydd rhanbarthol ym Medi 2006 a drefnwyd gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICC) i drafod canllawiau ynghylch paratoi ac ymateb i bandemig fflw gyda staff BILl allweddol? (WAQ48259)

Ann Jones: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cael gyda’r Adran Iechyd a’r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch rhinweddau ehangu sgôp y drefn flynyddol gyfredol gyda’r brechiad fflw ‘tri-falent’ i gategorïau helaethach o bobl, gyda’r bwriad o ddatblygu gallu’r DU i gynhyrchu cymaint o ddognau â phosib o frechiad ‘unfalent’ yn erbyn rhywogaeth fflw pandemig? (WAQ48253)

Ann Jones: Faint o bobl ym mhob ardal BILl y mae cynllun wrth gefn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer fflw pandemig yn rhagweld fyddai (a) yn cael eu heintio a (b) yn marw yn ystod pandemig? (WAQ48260)

Ann Jones: Pa ganran o boblogaeth Cymru y mae cynllun wrth gefn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pandemig fflw yn rhagweld fyddai (a) yn cael eu heintio a (b) yn marw yn ystod pandemig? (WAQ48261)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Brian Gibbons: Gofynnwyd i’r byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG gyflwyno eu cynlluniau wrth gefn—hyd yn oed os mai ar ffurf ddrafft yr oeddent—ar wefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol erbyn 30 Medi. Mae’r rhain yn gynlluniau gweithredol a fydd yn parhau i gael eu datblygu fel y daw rhagor o wybodaeth ar gael. Gallaf gadarnhau, ar 17 Hydref 2006:

- fod tri chynllun BILl yn dal i fod heb gael eu cyflwyno (Conwy, Sir Ddinbych a Merthyr Tudful): a
- bod pedwar cynllun ymddiriedolaeth GIG heb gael eu cyflwyno (Bro Morgannwg, Ceredigion a Chanolbarth Cymru, Conwy a Sir Ddinbych, a Phowys).

Rhoddodd y tri chyfarfod rhanbarthol a drefnwyd gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ym Modelwyddan, Caerfyrddin a Chaerdydd gyfle i swyddogion arwain proffesiynol y BILlau drafod y canllawiau, y camau gweithredu sy’n cael eu hargymell a’r rhestr gyfeirio er mwyn hunanasesu pa mor barod yw sefydliad. Yn sgil eu llwyddiant, bydd tri digwyddiad tebyg yn cael eu cynnal i staff yr ymddiriedolaethau a swyddogion cynlluniau argyfwng yr awdurdodau lleol yn ystod mis Hydref, yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a’r Rhyl.

Imiweiddio yw conglaen atal fflw ac mae adrannau iechyd y DU yn gweithio’n agos â’i gilydd i ddatblygu

polisiâu imiweiddio tymhorol ar sail cyngor arbenigol y Cydbwyllgor ar Imiweiddio a Brechu. Mae’r cydbwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd y rhaglen dymhorol yn rheolaidd ac yn ystyried yr holl dystiolaeth newydd sy’n awgrymu y dylid ymestyn imiweiddio i eraill. O ran y paratodau pandemig, mae nifer o gamau’n cael eu cymryd i wneud y DU yn llai agored i’r firws. Er enghraifft, mae’r Adran Iechyd yn gweithio gyda datblygwyr brechlynnau, gwneuthurwyr ac asiantaethau rheoleiddio i leihau’r amser y mae’n ei gymryd i gynhyrchu brechlyn.

Mae cynllun wrth gefn y DU ar gyfer pandemig ffluiw yn cymell, at ddibenion cynllunio, mai’r senario sylfaenol ar sail pandemigau blaenorol yw cyfradd ymosod clinigol gronhus o 25 y cant o’r boblogaeth a chyfradd marwolaethau ymysg y rhai sy’n sâl o rhwng 0.37 y cant a 2.5 y cant a hynny dros un don neu fwy. Mae hyn yn awgrymu ei bod yn debygol, yng Nghymru, y bydd rhyw 1.5 miliwn (50 y cant o’r boblogaeth) yn dod i gysylltiad â’r firws ac, o’r rhain, bod 750,000 yn debygol o ddatblygu symptomau clinigol (25 y cant o’r boblogaeth). Mae cynllun y DU yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn adlewyrchu newidiadau yn y rhagdybiaethau cynllunio a datblygiadau o ran gwybodaeth.

Ar sail data’r Swyddfa Ystadegau Gwladol am boblogaethau preswyl ym mis Mehefin 2005 a’r cyfraddau ymosodiadau clinigol a marwolaeth ymysg y rhai sy’n sâl a ddefnyddiwyd fel amcangyfrifon gwaith at ddibenion cynllunio, mae’r tabl isod yn dangos yr ystod bosibl o salwch a marwolaethau yn ardal pob bwrdd iechyd lleol:

BILI	Poblogaeth breswyl	Nifer o bobl yr amcangyfrifir sy’n debygol o fynd yn sâl (ar sail rhagdybiaeth gynllunio o gyfradd ymosod clinigol o 25 y cant)	Amrediad marwolaethau amcangyfrifedig (ar sail rhagdybiaeth gynllunio o gyfraddau marwolaethau ymysg y rhai sy’n sâl o -.37 y cant a 2.5 y cant)	
Ynys Môn	68,900	17,225	60	430
Blaenau Gwent	68,400	17,100	60	430
Pen-y-bont ar Ogwr	130,800	32,700	120	820
Caerffili	170,200	42,550	160	1060
Caerdydd	319,700	79,925	300	2000
Sir Gaerfyrddin	178,100	44,525	160	1111
Ceredigion	78,300	19,575	70	490
Conwy	111,500	27,875	100	700
Sir Ddinbych	96,000	24,000	90	600
Sir y Fflint	150,200	37,550	140	940
Gwynedd	118,000	29,500	110	740
Merthyr Tudful	54,900	13,725	50	340
Sir Fynwy	87,700	21,925	80	550

Castell-nedd Port Talbot	135,600	33,900	120	850
Casnewydd	139,600	34,900	130	870
Sir Benfro	117,500	29,375	110	730
Powys	131,500	32,875	120	820
Rhondda Cynon Taf	231,600	57,900	210	1450
Abertawe	226,400	56,600	210	1410
Tor-faen	90,300	22,575	80	560
Bro Morgannwg	122,900	30,725	110	770
Wrecsam	130,500	32,625	120	820

Nodyn: mae’r ffigurau sy’n amcangyfrif yr achosion o salwch a marwolaethau wedi cael eu talgrynnu

Ann Jones: Pa gyllid a ryddhawyd ar gyfer cyflwyno cymhorthion clyw digidol ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran eu cyflwyno yng Nghymru? (WAQ48254)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Brian Gibbons: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydnabod bod buddsoddi mewn cymhorthion clyw digidol yn dyngedfennol i’r agenda i foderneiddio gwasanaethau awdioleg. Buddsoddwyd bron i £6 miliwn gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn awdioleg rhwng 2002 a 2005 i helpu i ddarparu cymhorthion clyw sy’n defnyddio’r dechnoleg newydd ac i recriwtio staff ychwanegol ar draws Cymru.

Mae seilwaith adrannau awdioleg mewn ymddiriedolaethau wedi cael ei foderneiddio ar draws Cymru o ganlyniad i’r buddsoddiad hwn. Mae clinigwyr ychwanegol wedi cael eu cyflogi, mae hyfforddiant wedi cael ei roi a chafodd cynllun cyflym i raddedigion ei gyflwyno yng Nghymru i helpu i sicrhau bod yr adrannau hynny mewn sefyllfa i osod cymhorthion clyw y dechnoleg newydd.

Megis gydag unrhyw dechnolegau newydd effeithiol, bu galw uchel am gymhorthion clyw digidol. Mae’r asesiadau am gymhorthion clyw digidol yn cael eu rheoli gan ymddiriedolaethau’r GIG yn unol â blaenoriaethau ac anghenion clinigol. Mae moderneiddio awdioleg yng Nghymru wedi helpu i sicrhau bod dros 100,000 o gymhorthion clyw digidol wedi cael eu gosod ar gyfer cleifion er mis Awst 2002.

Ann Jones: Faint a wariwyd ar fwyd ysbyty a maeth ym mhob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru ym mhob un o’r pum mlynedd diwethaf? (WAQ48255)

Ann Jones: Faint o bobl yn dioddef o ddiffyg maeth pan gawsant (a) eu derbyn i ysbyty a (b) eu rhyddhau o

ysbyty, a dreuliodd (i) hyd at un wythnos, (ii) rhwng wythnos a mis, (iii) rhwng un a thri mis a (iv) dros dri mis mewn ysbyty yn y cyfnod diweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer? (WAQ48256)

Ann Jones: Faint o bobl a (a) dderbyniwyd i ysbytai GIG yn dioddef o ddiffyg maeth a (b) a gafodd driniaeth am ddiffyg maeth mewn ysbytai GIG yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer, wedi eu rhannu'n ôl ysbyty? (WAQ48257)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Brian Gibbons: Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

Ann Jones: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog a'i swyddogion wedi eu cael gyda'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol am driniaeth gyffuriau ar gyfer clefyd Alzheimer ac a wnaiff ef ddatganiad? (WAQ48262)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Brian Gibbons: Nid ydym wedi cael unrhyw drafodaethau gyda NICE yn ddiweddar am ei werthusiad o gyffuriau i drin clefyd Alzheimer.

Ar 11 Hydref, cyhoeddodd NICE nad oedd yr apeliadau yn erbyn ei ganllawiau drafft wedi cael eu cadarnhau. Y canllawiau terfynol felly yw mai dim ond fel opsiynau i drin pobl sydd â chlefyd Alzheimer yn ei gyflwr canolig y dylai donepezil, galantamine a rivastigmine gael eu hystyried. Dim ond fel rhan o astudiaethau clinigol i bobl sydd â chlefyd Alzheimer yn ei gyflwr canolig-difrifol i ddifrifol y caiff Memantine ei argymhell.

I gleifion sydd newydd gael diagnosis yn unig y bydd y canllawiau hyn yn gymwys. Dylai cleifion sy'n defnyddio'r cyffuriau hyn ar hyn o bryd barhau i wneud hynny, ar y sail y cawsant eu rhoi i ddechrau. Cyhoeddir canllawiau terfynol ar 22 Tachwedd, i gyd-fynd â chanllaw clinigol NICE ar reoli dementia.

Caiff canllawiau NICE eu datblygu ar ôl cael cyngor helaeth gan ystod eang o ffynonellau arbenigol, yn cynnwys gofalwyr, y GIG, diwydiant a'r byd academiaidd. Maent yn ddarostyngedig i broses werthuso drylwyr. Mae pwyllgorau arfarnu NICE yn clywed tystiolaeth gan arbenigwyr clinigol enwebedig, cleifion a gofalwyr cyn gwneud eu hargymhellion.

Mae NICE yn gorff annibynnol, a sefydlwyd i wneud penderfyniadau am effeithiolrwydd clinigol a chost effeithiolrwydd cynnyrch ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf. Weithiau mae rhaid i NICE ddweud 'na' i driniaeth gan nad yw'r dystiolaeth yn dangos ei bod yn effeithiol yn glinigol ac o ran cost.

Gallaf eich sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru am i bob claf Alzheimer a'u gofalwyr gael gofal a chymorth o'r ansawdd gorau posibl, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog roi a) manylion pob ymweliad swyddogol a dalwyd yn y 12 mis diwethaf fel rhan o'i ddyletswyddau swyddogol; b) nifer y swyddogion a aeth gydag ef ac c) cyfanswm cost yr ymweliad? (WAQ48308) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe’ch cyfeirïaf at yr ateb a roddais i gwestiwn ysgrifenedig WAQ48309.

Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau orthodonteg yng Nghaerdydd? (WAQ49683)

Brian Gibbons: Mae gan fyrdau iechyd lleol eu cyllidebau eu hunain ac maent yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau deintyddol GIG i ddiwallu’r angen yn lleol ac agenda ehangach iechyd y geg. Ni fu unrhyw doriadau yn y cyllid ar gyfer triniaeth ddeintyddol neu driniaeth ddeintyddol arbenigol fel orthodonteg. Pan gytunwyd ar y contractau newydd i’r gwasanaethau deintyddol cyffredinol a’r gwasanaethau deintyddol personol, cafodd enillion practisiau unigol yn y gorffennol eu hystyried. Ystyriwyd y patrymau trin ledled Cymru hefyd. Pennwyd cyllidebau orthodonteg, fel cyllidebau deintyddol eraill, ar gyfer 2006-07 fesul ardal BILl, gyda’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar sail y cyfnod cyfeirio, sef mis Hydref 2004 hyd at fis Medi 2005.

Dylai BILlau ystyried trafod cydgomisiynu orthodonteg gyda BILlau cyfagos. Dylent wneud hyn drwy edrych ar y nifer ar y rhestrau aros a hyd y cyfnod aros am a) asesiad a b) triniaeth—gan ddefnyddio’r mynegai angen am driniaeth orthodonteg—a hefyd drwy edrych ar ddadansoddiad o’r ffynhonnell gyfeirio fesul ardal BILl.

Cyflwynwyd canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau arbenigol fel triniaeth orthodontig i’r BILlau ym mis Rhagfyr 2005 a mis Gorffennaf 2006. Mater i bob BILl unigol yw’r lefel o wasanaethau a ddarperir.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer clinigau iechyd rhywiol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru? (WAQ49686)

Brian Gibbons: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi rhaglen weithredu ar waith i wella iechyd rhywiol a lles pobl o bob oedran yng Nghymru. Er 2001, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi cynlluniau iechyd rhywiol lleol gan gynnwys datblygu clinigau i bobl ifanc, prosiectau rhyw a pherthnasoddd yn y gymuned ac yn yr ysgol, a gwaith allgymorth, i gyrraedd y rhai sy’n fwyaf tebygol o gael eu heintio.

Mae rhaglen foderneiddio’r Cynulliad i wasanaethau HIV ac iechyd rhywiol yng Nghymru yn cynnwys datblygu safonau cenedlaethol; integreiddio’r gwasanaethau meddygaeth genhedlol-wrinol ac atal cenhedlu presennol yn un gwasanaeth iechyd rhywiol; ehangu rôl ymarferwyr nyrsio yn y gwasanaethau; a datblygu rhwydweithiau gwasanaeth HIV ac iechyd rhywiol lleol.

Mae gwasanaethau iechyd rhywiol yng Nghymru yn cael eu comisiynu gan fyrdau iechyd lleol. Dywed y fanyleb gwasanaethau a gyhoeddwyd fel sail i benderfyniadau comisiynu bod angen i wasanaethau i bobl ifanc gael eu darparu mewn mannau hygrych, ar adegau cyfleus.

Er mis Ebrill 2005, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd ychwanegol o £500,000 i nifer o ddatblygiadau allweddol sy’n darparu gwasanaethau iechyd rhywiol ledled Cymru. Bydd y cyllid yn gyfrwng hefyd i gyrraedd targed mis Mawrth 2006 y dylai pob claf allu cael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol craidd o fewn dau ddiwrnod gwaith a chyrchu at wasanaeth atal cenhedlu brys o fewn 24 awr.

Nick Bourne: Pa sylwadau mae’r Gweinidog wedi eu gwneud gerbron ei gyfeillion yn San Steffan i eithrio’r mudiad hosbisau yng Nghymru o reolau sy’n eu gorfodi i dalu symiau helaeth o arian i redeg eu loteri codi arian? (WAQ49687)

Brian Gibbons: Nid wyf wedi gwneud unrhyw sylwadau am y mater penodol hwn i Lywodraeth y DU, sy’n gyfrifol am hyn. Deallaf fod yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a’r Comisiwn Hapchwarae yn edrych ar hyn o bryd ar fater ffioedd i loteriau cymdeithasau a bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn hysbys cyn bo hir.

Nick Bourne: Beth y mae’r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi’r ymgyrch bwyta’n iach ymhlith plant, ‘Food Dudes’? (WAQ49688)

Brian Gibbons: Mae swyddogion wedi cael nifer o drafodaethau gyda’r Athro Lowe dros y pum mlynedd diwethaf, a chafodd wahoddiad i ymuno ag is-grwp gwerthuso’r grwp gorchwyl bwyd a ffitrwydd.

Fel rhan o’r gwaith sy’n deillio o’r cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd i blant a phobl ifanc, yr ydym yn edrych ar ffyrdd arloesol o ymdrin â maeth a choginio yn y cwriclewm, a byddwn yn edrych yn agosach ar yr hyn y gallai’r ‘Food Dudes’ ei gyfrannu at hynny.

Mae’r gwaith cychwynnol yn edrych ar y costau gweithredu tebygol, lle bydd angen deunyddiau ymyrryd, yr amcangyfrifir ar hyn o bryd y byddant yn costio £12.57 y disgybl, cyd-drefnu’n lleol a hyfforddiant staff.

Mae rhai o ddulliau gwaith y ‘Food Dudes’ eisoes wedi cael eu hymgorffori yn ein gwaith ni mewn ysgolion. Er enghraifft, rhoi cyfle i flasau ffrwythau a rhoi amryw o gofarwyddion—sticeri, llyfrnodau, breichglodydd—i ategu’r gwaith o gyflwyno siopau ffrwythau. Ar hyn o bryd, mae dros 750 o ysgolion cynradd yn rhan o rwydwaith cynlluniau ysgolion iach Cymru.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau ar gyfer y dyfodol i ddarparu gwasanaethau yn y ganolfan gofal y fron a’r uned endosgopi arhosiad byr yn Ysbyty’r Tywysog Philip yn Llanelli? (WAQ49691)

Brian Gibbons: Mae’r gwaith ar achos amlinellol strategol arfaethedig ar gyfer datblygu uned lawfeddygaeth arhosiad byr ac ystafelloedd endosgopi yn Ysbyty’r Tywysog Philip bron â chael ei gwblhau. Rhagwelir y caiff ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo’n ffurfiol gan fwrdd buddsoddi cyfalaf Cymru gyfan yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Bydd yr achos yn caniatáu ar gyfer ehangu llawfeddygaeth ddydd a llawfeddygaeth arhosiad byr a bydd yn ychwanegu at yr amrywiaeth llawdriniaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yn Llanelli. Bydd yn unol ag ymarfer a chanllawiau modern cyfredol a ‘Chynllun Oes’. Nod y gwasanaethau arfaethedig fydd ymateb i anghenion cleifion am wasanaeth o ansawdd uchel sy’n darparu ymyriadau clinigol effeithiol a pharhad o ran gofal. Bydd y datblygiad hwn yn caniatáu i’r gwasanaeth gydymffurfio â chanllawiau diweddaraf Cymdeithas Llawfeddygaeth Ddydd Prydain. Bydd hefyd yn golygu bod modd datblygu’r capasiti i gyrraedd targedau mynediad 2009.

Mae’r bwrdd buddsoddi cyfalaf wedi rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor i achos busnes amlinellol gael ei ddatblygu ar gyfer y ganolfan gofal y fron—Cam 2.

Lisa Francis: Beth yw’r gost ragamcanedig o osod pibelli newydd yn lle’r hen rai copr yn Ysbyty Gwynedd, ac o ba ffynhonnell y canfyddir cyllid ar gyfer hyn? (WAQ49694)

Brian Gibbons: Bydd y gost ragamcanedig o osod pibelli newydd yn lle’r hen rai copr yn Ysbyty Gwynedd yn

cael ei chynnwys yn yr achos busnes amlinellol diwygiedig gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru y mae fy swyddogion yn aros amdano ar hyn o bryd. Mater i'r bwrdd buddsoddi cyfalaf wedyn fydd ystyried yr achos busnes amlinellol a phenderfynu a all yr ymddiriedolaeth fwrw ymlaen i lunio achos busnes llawn.

Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nad yw arian ar gyfer prosiect Ysbyty Alltwn wedi ei ddargyfeirio oddi wrth ysbytai cymunedol eraill yng Ngwynedd? (WAQ49695)

Lisa Francis: A yw'r Gweinidog yn gallu cadarnhau cost amcangyfrifedig wreiddiol prosiect Ysbyty Alltwn, a rhoi adroddiad cynnydd ynghylch cynnydd pellach i'r amcangyfrif hwn? (WAQ49696)

Brian Gibbons: Mae Ysbyty Alltwn yn ysbyty cymunedol sy'n cael ei godi o'r newydd i ddisodli Ysbyty Bron y Garth. Bydd 30 o welyau meddygaeth gyffredinol/gofal i'r henoed yn yr ysbyty, ynghyd â 10 gwely dydd, uned adsefydlu, adran cleifion allanol, cyfleusterau gwasanaethau iechyd meddwl a phelydr x a bydd yn ategu'r gwasanaethau gan Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Llandudno. Cymeradwyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr achos busnes terfynol ym mis Hydref 2004, gan ddarparu cyllid cyfalaf o £14.792 miliwn.

Mae cam 1 y prosiect hwn, a oedd yn cynnwys creu ffyrdd mynediad, wedi cael ei gwblhau erbyn hyn. O ran cam 2 y prosiect, mae cynllun y prif ysbyty wedi cael ei gwblhau ac, ar ddiwedd 2005, cwblhaodd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru ei phroses dendro am y gwaith adeiladu. Yr oedd y tendr yn fwy na'r gyllideb ac aeth yr ymddiriedolaeth GIG ati felly i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ym mis Chwefror 2006, cymeradwyodd bwrdd buddsoddi cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru £1.3 miliwn ac, ym mis Mawrth 2006, dechreuodd y gwaith adeiladu ar y safle o ddifrif. Mae disgwyl i'r ysbyty gael ei gwblhau yn 2007-08.

Nid oes arian wedi cael ei ddargyfeirio oddi wrth ysbytai cymunedol eraill yng Ngwynedd. Mae hwn yn gynllun sy'n sefyll ar ei ben ei hun, y ceisiwyd ac y dyrannwyd cyllid ar ei gyfer.

Lisa Francis: Er 2003, i sawl cwestiwn ysgrifenedig y mae'r Gweinidog wedi rhoi'r ateb 'Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog'? (WAQ49714)

Brian Gibbons: Rhwng 25 Chwefror 2002, pan ddechreuodd ein cofnodion electronig, ac 1 Mawrth 2007, pan gyflwynwyd y cwestiwn hwn, mae 5,377 o gwestiynau ysgrifenedig wedi cael eu gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai cost darparu'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani yn afresymol a byddai'n uwch na'r terfyn cost sy'n cael ei bennu er arweiniad gan y Cynulliad. Mae'r atebion i'r holl gwestiynau ysgrifenedig a atebwyd er 12 Mai 1999 ar gael i'r cyhoedd ar dudalennau Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan Cofnod y Trafodion ar: <http://www.cymru.gov.uk/keypubrecordproceedings/index.htm>

Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yw rhoi cyfeiriad strategol i'r GIG yng Nghymru ac i ymddiriedolaethau GIG a BILlau i ddarparu a chyflwyno gwasanaethau'n lleol. Cesglir gwybodaeth yn ganolog am sawl agwedd ar wasanaethau'r GIG, ond nid pob un o bell ffordd. Os yw'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn cwestiwn Cynulliad yn cael ei dal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, bydd yr ateb yn darparu'r wybodaeth honno. Lle nad ydyw, bydd yr ateb yn egluro nad yw'n cael ei dal yn ganolog.

Er nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru efallai yn casglu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, nid yw'n golygu o reidrwydd nad yw'r wybodaeth yn bodoli yn rhywle arall. Efallai y bydd yn cael ei dal gan ymddiriedolaethau GIG a BILlau at eu dibenion gweithredol eu hunain. Mewn achosion felly, efallai y byddai'r gost o gasglu'r data gofynnol oddi wrth gyrff GIG i'r diben o ymateb i gwestiwn ysgrifenedig yn afresymol ac, unwaith eto, efallai y byddai'n uwch na'r terfyn cost a bennir gan y Cynulliad er arweiniad.

Dywed canllawiau'r Llywydd ar gwestiynau Cynulliad (Mai 2003) ym mharagraff 1.4, 'Diwylliant y Cynulliad yw annog llif dilyffethair o wybodaeth rhwng y cabinet ac Aelodau Cynulliad eraill, fel nad oes angen mecanweithiau ffurfiol i gael gafael ar wybodaeth ffeithiol. Weithiau, y Fewnruyd a'r Llyfrgell, sy'n gallu cynnig gwasanaeth briffio ffeithiol, yw'r ffyrdd mwyaf priodol, a chyflymaf, o gael gafael ar wybodaeth ffeithiol'.

Dywed paragraff 3.6 y canllawiau bod cwestiynau sy'n gofyn 'am weithredu i ddelio â materion gweithredol sydd o dan reolaeth awdurdodau ieched nad oes gan y Prif Weinidog [a] Gweinidogion y Cynulliad unrhyw rym i'w gyflawni' yn annerbyniadwy. Hefyd, mae 'Cwestiynau sy'n gofyn am wybodaeth y gall Aelod Cynulliad gael gafael arni'n hawdd ei hun neu drwy ffynhonnell arall' yn annerbyniadwy.

Lisa Francis: Pa fyrdau ieched lleol yn y canolbarth a'r gorllewin sy'n datblygu eu cynlluniau gweithredu lleol hwy eu hunain yn dangos sut y maent yn bwriadu gweithredu camau fframwaith gwasanaeth cenedlaethol allweddol a dod â gwasanaethau ieched meddwl ychwanegol i'w hardaloedd? (WAQ49721)

Brian Gibbons: Mae pob BIL yn y canolbarth a'r gorllewin yn cynhyrchu eu cynlluniau gweithredu lleol, yn dangos sut maent yn bwriadu gweithredu camau allweddol y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol a dod â gwasanaethau ieched meddwl ychwanegol ymlaen, y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol i gyrraedd targedau presennol y fframwaith gwasanaeth a chyllid.

Fel cam gweithredu allweddol yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig ar gyfer ieched meddwl oedolion, bydd amryw o wasanaethau arbenigol ar gael ledled Cymru. Dylai'r rhain gynnwys gwasanaethau anhwylderau bwyta hygrych yn ardal pob ymddiriedolaeth. Yr ydym wedi gofyn i'r byrdau ieched lleol a Chomisiwn Ieched Cymru edrych ar y ddarpariaeth gwasanaethau anhwylderau bwyta i gleifion mewnol a datblygu gwasanaethau priodol yn unol â'u strategaethau comisiynu.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Leanne Wood: Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod adrannau eraill yn ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf? (WAQ48265)

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddiffinio plygu rhaglenni o fewn Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ48266)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Mae diffiniad llawn o blygu rhaglenni wedi cael ei ddarparu yng nghanllawiau drafft Cymunedau yn Gyntaf 2006.

Yr wyf yn gweithio ar lefel Gweinidogion, a chyda fy staff ar lefel swyddogion, i sicrhau bod meysydd ar draws y Cynulliad a hefyd y tu allan i'r Cynulliad yn ymwneud â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y ceisiadau am uned Cymunedau yn Gyntaf yn 2005? (WAQ48267)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Edwina Hart: Daeth 177 o geisiadau i law oddi wrth bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn 2005.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd gan bartneriaethau i’r uned Cymunedau yn Gyntaf yn ystod 2005? (WAQ48268)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Edwina Hart: Darparodd pob un o’r 137 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf adroddiad cynnydd chwarterol.

Leanne Wood: Pa asesiad a wnaed o gynnydd Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ48269)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Edwina Hart: Mae pob partneriaeth yn cyflwyno adroddiadau cynnydd sy’n galluogi fy swyddogion i olrhain y cynnydd a wnaethpwyd. Ar lefel rhaglen, cafodd y gwerthusiad interim o Gymunedau yn Gyntaf yr ymgwymerwyd ag ef gan werthuswyr annibynnol ei lansio ar 20 Medi.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth gan y cynllun cymorth prynu yn 2005? (WAQ48270)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Edwina Hart: Mae’r ffigurau am y nifer o fenthyciadau cymorth prynu a gafodd gymorth drwy grant tai cymdeithasol ar gael fesul blwyddyn ariannol ac maent fel a ganlyn:

2004-05	202 benthyciad
2005-06	252 benthyciad

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y staff sy’n gweithio yn yr uned Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ48271)

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddogion yn yr uned Cymunedau yn Gyntaf sydd â chymwysterau ym maes datblygu cymunedol? (WAQ48272)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Edwina Hart: O ran rhan gyntaf eich cwestiwn, mae 25 o staff yn yr uned Cymunedau yn Gyntaf.

Parthed eich cais am fanylion am unrhyw staff sy’n gweithio yn yr uned sydd â chymwysterau achrededig yn ymwneud â datblygu cymunedol, megis cymwysterau NOCS mewn datblygu cymunedol, dylwn dynnu sylw at y ffaith mai’r Ysgrifennydd Parhaol sydd ag awdurdod dirprwyedig am faterion recriwtio yn hytrach na Gweinidogion y Cynulliad.

Fodd bynnag, gallaf gadarnhau bod y gwasanaeth sifil yn draddodiadol wedi disgwyl i dimau fod â sgiliau generig yn hytrach na sgiliau arbenigol, ac mae uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu hyn. Yn fwy diweddar, serch hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'r angen i ystyried cydbwyso sgiliau generig a sgiliau arbenigol ac mae'n ymdrin â hyn drwy'r rhaglen sgiliau proffesiynol ar gyfer llywodraeth, ymysg eraill. Mae'r gwaith hwn yn dal mewn cyfnod cymharol gynnar, ond bydd yr uned Cymunedau yn Gyntaf yn cysylltu'n agos â chydweithwyr yn y tîm strategaeth adnoddau dynol i ystyried y goblygiadau i'r dyfodol o ran datblygu timau.

Hefyd, wrth recriwtio i swyddi, mae pwyslais ar gymwyseddau fel profiad o weithio gyda phartneriaid allanol gan gynnwys grwpiau cymunedol—mae hyn yn wir am recriwtio mewnol ac allanol. Caiff staff mewn swydd eu datblygu i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a pharhad er mwyn eu galluogi i barhau mewn maes gwaith y maent ag ymroddiad iddo.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi dod â secondeion sydd â phrofiad priodol i mewn er budd partneriaethau, staff a'r rhaglen drwyddi draw.

Yn ogystal, nid rôl yr uned Cymunedau yn Gyntaf yn bennaf yw darparu cyngor arbenigol am faterion datblygu cymunedol i bartneriaethau a staff sy'n gweithio ar y rhaglen. Mae'r rôl hon yn disgyn yn fwy naturiol i ran amryw o asiantaethau cymorth gan gynnwys rhwydwaith cymorth Cymunedau yn Gyntaf, cynghorau gwirfoddol sirol a nifer fawr o dimau cymorth sydd wedi ennill eu plwyf o fewn awdurdodau lleol a chyrff eraill sy'n cael grantiau. Mae llawer o'r asiantaethau cymorth hyn yn cynnwys staff sydd â chymwysterau perthnasol ac (yn fwy cyffredin) brofiad o ddatblygu cymunedol.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr aelwydydd sy'n byw dan 60 y cant o'r incwm cyfartalog ar ôl costau tai yn 2005? (WAQ48273)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Edwina Hart: Cyhoeddir yr ystadegau hyn ar dudalennau ystadegau gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

<http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/social-2006/hdw200603091/?lang=en>

Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog roi a) manylion pob ymweliad swyddogol a dalwyd yn y 12 mis diwethaf fel rhan o'i ddyletswyddau swyddogol; b) nifer y swyddogion a aeth gydag ef ac c) cyfanswm cost yr ymweliad? (WAQ48313) **Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.**

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeirïaf at yr ateb a roddais i gwestiwn ysgrifenedig WAQ48309.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei pholisïau ar gyfer cefnogi'r sector gwirfoddol? (WAQ49680)

Edwina Hart: Mae'r sector yn dal i fod yn flaenllaw ym mholisi Llywodraeth y Cynulliad. Mewn partneriaeth â'r

sector, yr ydym wedi datblygu cynllun gweithredu strategol i sicrhau datblygiad cynllun y sector gwirfoddol yn y dyfodol. Mae hwn yn destun ymgynghori ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth newydd ar ôl etholiadau 2007 y Cynulliad.

Trish Law: Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi penderfyniad ynghylch cais a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar 6 Hydref 2006 am grant tai cymdeithasol ar gyfer datblygiad tai â chefnogaeth gofal ychwanegol? (WAQ49699)

Edwina Hart: Cyhoeddais ganlyniad cylch ceisiadau 2008-09 am gynlluniau gofal ychwanegol ar 6 Mawrth 2007. Yr oedd cais Blaenau Gwent yn llwyddiannus.

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiannau yn y maes cyfiawnder cymdeithasol yn etholaeth Ogwr? (WAQ49734)

Edwina Hart: Ar gyfer 2006-07, cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr £230,000 fel cyfraniad tuag at weithgarwch yn ei ardal adnewyddu. Cafodd yr asiantaeth gofal a thrwsio ym Mhen-y-bont ar Ogwr £133,863 yn 2006-07 fel cyfraniad tuag at ei weithgareddau craidd a £65,054 i'r rhaglen addasiadau brys. Rhwng 2004-05 a 2006-07, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £8.9 miliwn mewn grantiau tai cymdeithasol i gymdeithasau tai sy'n gweithredu yn ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr i'w helpu i ddarparu rhagor o dai fforddiadwy ar rent a pherchentyaeth cost isel. Mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi cynorthwyo cyfanswm o ryw 1,750 o aelwydydd yn etholaeth Ogwr, gan ddarparu dros 3,700 o fesurau effeithlonrwydd ynni am gost o £1.8 miliwn. O'r adeg y sefydlwyd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf tan 31 Mawrth 2007, mae cyfanswm cyfun o £3,667,676 wedi cael ei ddyfarnu i'r pum ardal Cymunedau yn Gyntaf yn etholaeth Ogwr. Yn olaf, rhwng 1999 a 2008, mae mwy na £5.4 miliwn wedi cael ei ddyrannu i bartneriaeth diogelwch cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr.

Janice Gregory: Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu unigolion ar incwm isel i fynd i'r afael â phroblem dyled bersonol? (WAQ49735)

Edwina Hart: Nod yr adolygiad o orddyled oedd deall a mynd i'r afael â dyledion personol. Yr ydym yn gweithredu ei argymhellion, gan gynnwys addysg llythrennedd ariannol mewn ysgolion, ehangu cyngor am ddyled a rhoi cymorth i'r mudiad undebau credyd. Mae cymorth yn cael ei gyfeirio tuag at y rhai sydd mewn angen, plant sy'n derbyn gofal ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn arbennig.

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog amlinellu: a) faint o arian sydd wedi'i fuddsoddi yn etholaeth Ogwr drwy gyfrwng y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a b) darparu rhestr o brosiectau penodol a noddir drwy gyfrwng rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn etholaeth Ogwr? (WAQ49736)

Edwina Hart: O'r adeg pan sefydlwyd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hyd at 31 Mawrth 2007, yr wyf wedi dyfarnu cyfanswm cyfun o £3,667,676.15 i'r pum ardal Cymunedau yn Gyntaf yn eich etholaeth. Targedir y rhan fwyaf o'r cyllid hwn tuag at gostau craidd Cymunedau yn Gyntaf fel staff a chyflogau, eiddo, cyfarpar a chyfathrebu, sy'n hwyluso ac yn hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a meithrin gallu yn y pum ardal. O ran prosiectau penodol yn Ogwr, mae Cymunedau yn Gyntaf wedi cyllido prosiect Ystâd Parc Caerau (£44,000) a phrosiect Pontio Positif Caerau (£46,200).

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog restru’r holl grantiau ar gyfer cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol a ddarparwyd yn etholaeth Ogwr er 2003? (WAQ49738)

Edwina Hart: Er 2003, mae naw prosiect, gwerth £732,287 o gyllid grant dan y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, wedi cael eu cymeradwyo yn etholaeth Ogwr. Mae’r etholaeth yn elwa hefyd ar ddau gynllun grant i’r fwrdeistref gyfan gwerth £290,000 sy’n cael eu gweinyddu gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr. Dyma fanylion y cynlluniau yn Ogwr:

Prosiect	Cylch	Grant
Canolfan Gymunedol Brynna	01/03/2003	£94,000
Sefydliad Byw’n Iach Betws a Chwm Garw	01/08/2003	£150,000
Cwmni Cydweithredol Cymunedol Cwm Garw	01/08/2003	£2,430
Neuadd y Dref, Maesteg	01/08/2003	£10,770
Creation Development Trust, Blaengarw	01/08/2003	£72,704
Mynediad i’r Anabl, Eglwys Dewi Sant, Pencoed	15/07/2004	£28,662
Gwella Neuadd Les Heol y Cyw	15/10/2004	£41,068
Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch	15/04/2005	£299,053
Prosiect Clwb Chwaraeon Amrywiol Maesteg Celtic	18/04/2006	£33,600.00
Cyfanswm	9	£732,287

Cwestiynau i’r Trefnydd

Leighton Andrews: Faint o geisiadau rhyddid gwybodaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’u derbyn gan y BBC ers i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ddod i rym? (WAQ49727)

Y Trefnydd (Jane Hutt): Ers i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gychwyn ar 1 Ionawr 2005, mae ein cofnodion yn dangos bod 56 o geisiadau am wybodaeth wedi dod i law Llywodraeth Cynulliad Cymru oddi wrth y BBC. O’r rhain, daeth 33 i law yn 2005, 16 yn 2006 a’r saith arall ers dechrau 2007.